**Eitem Agenda Rhif 4**

## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, y Rhyl ddydd Llun, 7 Chwefror 2011 am 10.00am.

### PRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr: C M Evans, G C Evans, M M Jones (Cadeirydd)

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

H Ellis, B Wyn Evans, S Harris

**Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

M Bradshaw, C Harmsworth, M Philips a J Smith

**Aelodau Cyfetholedig**

G Craigen, M B Lloyd a T Ap Siôn

### HEFYD YN BRESENNOL

Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol (PL) a'r Clerc i CYSAG (EC)

### YMDDIHEURIADAU

- Y Cynghorwyr: C Hughes a J G Yorke
- Mr M Hatch a Mrs E Wright

Roedd Mr Hatch wedi rhoi rhybudd o'i ymddiswyddiad o CYSAG a bydd yn hysbysu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig o'i benderfyniad ac yn cyflwyno'i ymddiswyddiad yn ffurfiol. Bydd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol (SLA) yn gofyn yn ffurfiol am gynrychiolydd yn ei le.

Awgrymwyd y dylid ei gwneud yn glir y gallai rhywun arall ddirprwyo yn lle aelodau swyddogol CYSAG pan na fydd yn gallu bod yn bresennol.

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

**CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod gan gynnwys Ms J Smith a Julian Molloy a oedd yn bresennol yn lle Ms M Ludenbach a Karen Evans.
Estynnodd y Pwyllgor eu dymuniadau gorau i’r Parch B H Jones.
Ar ran y pwyllgor, llongyfarchodd y Cadeirydd Glerc CYSAG, Kath Jones, ar enedigaeth ei thrydydd plentyn a bydd yn anfon cerdyn ati.

## 2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb personol na rhagfarnol.

## 3 MATERION BRYS A GYTUNWYD GYDA’R CADEIRYDD

Ni chodwyd yr un.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod o Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2010 (a rannwyd o’r blaen).

Materion yn Codi / Cywirdeb

- Nodwyd fod Ms M Bradshaw wedi llywyddu’r cyfarfod fel Cadeirydd yn lle’r Cynghorydd M M Jones a oedd wedi cyflwyno’i hymddiheuriadau.
- Diwygio Eitem 9.1 i ddarllen ‘..*hysbysodd* Mrs B Lloyd fod cyn gadeirydd CYSAG, y Cynghorydd David Jones wedi marw.....'
- Roedd y Cadeirydd wedi bod yn angladd y Cynghorydd Jones a dywedodd ei fod yn wasanaeth pleserus iawn.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 10fed Hydref 2010 fel cofnod cywir.*

## 5 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIAD AR YSGOLION

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu adroddiad (a rannwyd o’r blaen) yn dadansoddi canlyniadau’r archwiliadau diweddar o ddarpariaeth Ysgol Frongoch ac Ysgol Plas Brondyffryn ar Dddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ac ar Addysg Grefyddol a roedd yn rhan o’r archwiliad. Eglurodd y defnyddiwyd ffurf adroddiad traddodiadol yn y ddwy ysgol gan eu bod yn disgyn i Fframwaith Archwilio blaenorol. Bydd adroddiad rhai eraill sy’n cael eu harchwilio yn dilyn Fframwaith Archwilio newydd Estyn a gafodd ei lansio ym mis Medi 2010.

Roedd yn braf nodi fod yr ysgolion wedi derbyn 60 o sylwadau positif rhyngddyn nhw a dim ond un sylw negyddol mewn perthynas â dinasyddiaeth.

Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i ddarllen adroddiadau archwilio llawn yr ysgolion a oedd yn gosod gwahanol elfennau’r archwiliad mewn cyd-destun.

***PENDERFYNWYD:-***
*(a) nodi a derbyn yr adroddiad; ac*

*(b) anfon llythyr at yr ysgolion a gafodd eu harchwilio yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd yn yr archwiliadau.*

## 5.a DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIAD: O DAN Y FFRAMWAITH NEWYDD

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn sôn wrth Aelodau am y newidiadau mewn archwiliadau ac adroddiadau ysgolion yn codi o newidiadau Fframwaith Archwilio newydd Estyn.

Roedd yr adroddiad, o dan y fframwaith newydd, yn dadansoddi canlyniadau archwiliad diweddar Ysgol Emmanuel yn llawer mwy cryno a heb fanylion penodol ar ddarparu Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ac Addysg Grefyddol. Fodd bynnag, roedd y sylwadau a oedd yn berthnasol i Addysg Grefyddol wedi'u cyflwyno i'r pwyllgor, megis y categori ar 'Cefnogaeth ar Arweiniad Gofal'. Rhoddwyd cyfeiriad y wefan i'r Aelodau lle gellir gweld yr adroddiad llawn 6 tudalen.

Rhai o'r pwyntiau allweddol a godwyd mewn perthynas â'r fframwaith archwilio newydd a'r fformat adrodd yn ôl oedd:
- Roedd y weithdrefn yn llawer llai beichus ar y staff dysgu
- Mae'r fframwaith newydd yn canolbwyntio mwy ar archwilio hunan werthusiad ysgolion gan eu staff, mae gweithdrefn ddiwygiedig i gyflwyno a gwerthuso gwaith enghreifftiol ac i Archwilwyr gytuno neu anghytuno gyda'r gwerthusiadau hynny.
- Mae'r 7 cwestiwn allweddol wedi'u cwtogi i 3 yn y fframwaith Archwilio newydd
- Mae Estyn yn ystyried datblygu archwiliadau ardal yn canolbwyntio ar un pwnc penodol mewn clwstwr penodol o ysgolion
- Yn gyffredinol, roedd y fframwaith yn canolbwyntio mwy ar arweinyddiaeth a llai ar ddysgu yn y dosbarth

Cytunwyd y dylid anfon llythyrau yn y modd arferol yn llongyfarch ysgolion, yn yr achos yma Ysgol Emmanuel, ar eu nodweddion positif.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) nodi a chymeradwyo'r fformat newydd ar gyfer adrodd yn ôl ar archwiliad ysgolion o dan Fframwaith Archwilio newydd Estyn, ac*

*(b) anfon llythyr at yr ysgol a gafodd ei harchwilio i'w llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd yn yr archwiliad.*

## 6 ADOLYGIADAU MONITRO A CHEFNOGI

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu adroddiad yn son wrth yr Aelodau am ei ymweliadau â chonsortiwm o ysgolion Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Uwchradd Prestatyn a'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol yn y ddwy.

Cynhaliwyd yr ymweliadau yn ystod tymor yr haf ac, fel y cytunwyd gyda'r ysgolion, roedd y problemau a'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, roedd y

nodweddion da, y diffygion a'r argymhellion yn cael eu crynhoi ar gyfer pob ysgol a hefyd ragolwg cyffredinol o bob consortiwm.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

- Fel arfer, bydd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu'n treulio diwrnod cyfan wrth ymweld ag Ysgol Uwchradd a hanner diwrnod mewn ysgol Gynradd.
- Cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r plant mewn ysgolion; cafodd gwersi eu harsylwi ac edrychwyd ar enghreifftiau o waith yn ystod yr ymweliadau.
- Roedd y ddau gonsortiwm wedi dangos nifer o nodweddion da.
- Roedd nifer o ysgolion cynradd wedi gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu cynlluniau o waith ar gyfer pob pwnc gan gynnwys Addysg Grefyddol. I ysgolion llai, mae hwn yn ddefnydd effeithiol o amser.
- Mae angen cryfhau'r dulliau o hunan werthuso a dylai hynny fod yn faes gwella.
- Roedd yr aelodau'n siomedig nad oedd rhai o'r ysgolion yng nghlwstwr Prestatyn yn dilyn Polisi Sir Ddinbych ar y pryd.

***PENDERFYNODD*** *y Pwyllgor fod:*

*(a) nodi a derbyn yr adroddiadau ar Gonsortiwm ysgolion Brynhyfryd a Phrestatyn, a chytuno i*

*(b) Anfon llythyrau at yr ysgolion gyda chopi o'r adroddiadau llawn a gyflwynwyd i CYSAG*

## 7 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2010

Roedd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu yn hynod bryderus ynghylch cywirdeb y data yn nhablau canlyniadau TGAU a Lefel A. Roedd ymchwiliadau ar y gweill, gan gynnwys cymharu gyda 'Data'r We' i ddilysu'r ffigyrau sy'n cael eu dangos. Yna, bydd yn cyflwyno'r tabl canlyniadau swyddogol, unwaith y bydd y rhain wedi'u gorffen a'u dilysu, yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau i drafod sut y dylid symud ymlaen i drin problemau gyda'r canlyniadau ar ôl derbyn y data hyfyw.

***PENDERFYNWYD*** *gan nad oedd cywirdeb y data sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad wedi'i ddilysu, bydd adroddiad swyddogol yn cynnwys data'r canlyniadau wedi'u dilysu'n cael ei gyflwyno i gyfarfod yr haf o CYSAG, a bydd yr Aelodau'n ystyried sut i symud ymlaen yr adeg hynny.*

## 8 GŴYL 'DATHLU ADDYSG GREFYDDOL'

Cyfeiriodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu at y cynlluniau diweddaraf ar gyfer cynnal Gŵyl Addysg Grefyddol fis Mawrth 2011 a gofynnodd am farn yr aelodau ar y digwyddiadau y bwriedir eu cynnal yn ystod y mis cyfan o ddathlu a hyrwyddo Addysg Grefyddol trwy'r ysgolion.

<u>Lansio Dathlu Addysg Grefyddol yng Nghymru 2il Mawrth 2011 11.30am – 3.30pm yn Ysgol Standwell, Penarth</u>

Gofynnwyd pwy o'r aelodau a fyddai'n bresennol gyda Ms T Ap Siôn. Pwysleisiodd y byddai cynrychiolaeth gref o CYSAG Sir Ddinbych o fudd.

Atgoffwyd yr Aelodau hefyd fod hwn wedi'i drefnu yn union ar ôl cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (10.30am – 11.30am)

<u>24 Mawrth 2011 Eglwys Gadeiriol Llanelwy</u>

Hysbyswyd yr Aelodau am y digwyddiad diwrnod cyfan i hyrwyddo Eglwys Gadeiriol Llanelwy, sy'n cael ei drefnu gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu ac M Bradshaw.

Bydd chwe ysgol leol yn bresennol a bydd Gweithdai Lego, Pypedau ac Adrodd Stori'n cael eu cynnal yn y bore.

Mae'r 'Offeren Ddawns' a drafodwyd o'r blaen yn cael ei choreograffio gan Cate Harmsworth. Mae wedi'i threfnu ar gyfer y prynhawn a bydd yn cael ei ffilmio gan fyfyrwyr cyfryngau o ysgol uwchradd leol.

Gyda'r nos perfformir 9 act gan gynnwys dawns, canu a drama. Bydd yr Esgob yn bresennol o 6.30pm i 8.00pm. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn dal tua 450 o bobl ar y mwyaf ond bydd Aelodau'n derbyn gwahoddiad swyddogol cyn y digwyddiad.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr Ŵyl Addysg Grefyddol sydd ar fin cael ei chynnal.*

## 9 CYFNOD SYLFAEN

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r aelodau ar gynnydd y Gweithgor Cyfnod Sylfaenol wrth ddatblygu basdata a fydd y rhestru gweithgareddau dosbarth ac yn eu cysylltu â meysydd yn y dosbarth ac â'r Sgiliau mewn perthynas ag Addysg Grefyddol yn y fframwaith sylfaen.

Bydd y basdata, unwaith y bydd wedi'i orffen, yn gymorth defnyddiol iawn ar gyfer dysgu'r cyfnod sylfaen ac yn galluogi'r defnyddiwr i deipio gair allweddol i mewn a gweld nifer o feysydd perthnasol.

Roedd yr Aelodau'n cytuno fod y basdata'n syniad da iawn ac yn awyddus i weld y ddogfen orffenedig, ac felly:

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith y gweithgor Cyfnod Sylfaen, a chymeradwyo ymdrechion y Swyddogion sydd â rhan, a*

*(b) Unwaith y bydd y basdata, y mae'r grŵp yn ei ddatblygu ar hyn o bryd, wedi'i orffen, gwahodd cynrychiolydd o'r Gymdeithas Athrawon i gyflwyno'r ddogfen i'r pwyllgor.*

## 10 CYMDEITHAS CYMRU O BWYLLGORAU CYSAG

### Cofnodion Drafft Cymdeithas CYSAG Cymru – 26 Tachwedd 2010

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod o Gymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerffili (a rannwyd o'r blaen).

Materion yn Codi

**Eitem 7 (d)** Roedd G Craigen yn siomedig i weld nad oedd unrhyw ysgol o ogledd Cymru wedi'i chynnwys yn y 'REsilience Project'. Anogwyd yr Aelodau i hyrwyddo'r prosiect i Ysgolion Uwchradd yn Sir Ddinbych, gan ei fod yn brosiect gwerth chweil. ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2010.*

## 11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cytunodd Clerc CYSAG anfon e-bost / llythyr ar yr holl Aelodau unwaith y bydd amserlen y cyfarfodydd am y flwyddyn ddinesig nesaf wedi'i derfynu yng Nghyngor Llawn Sir Ddinbych ar 22 Chwefror 2011, yn eu hysbysu am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

## 12 UNRHYW FATER ARALL

Nododd yr Aelodau eu dewis Iaith i dderbyn papurau'r pwyllgor y dyfodol yn erbyn eu henwau ar y gofrestr cyfarfodydd. Nododd y rhai a oedd yn dewis derbyn papurau electronig yn hytrach na chopïau caled hynny hefyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am.w

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>13 Mehefin 2011</td></tr>
<tr><td>Eitem Agenda:</td><td>5</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir i'r Adroddiad:</u><br>Mae dyletswydd statudol ar CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, ac mae ganddo arfer hir sefydlog o dderbyn a dadansoddi adroddiadau Arolygu Estyn ym mhob cyfarfod.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Diben yr Adroddiad:</u><br>Hysbysu aelodau o ganlyniadau Adroddiadau Arolygu Estyn diweddar ar ysgolion.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><ul><li>Derbyn yr adroddiad</li><li>Anfon llythyr at bob ysgol yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Arolygu wedi’i ystyried, yn eu llongyfarch am y nodweddion da a adnabuwyd, ac yn eu hatgoffa o wasanaethau’r Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd datblygu neu faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy.</li><li>Gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu’r llythyron i'r ysgolion dan sylw.</li></ul></td></tr>
</table>

# Dadansoddi Adroddiadau Arolygu
# CYSAG Sir Ddinbych

## 13 Mehefin 2011

### Arolygwyd o dan y Fframwaith Estyn newydd

| Ysgol | Dyddiadau | Arolygydd Adrodd |
|---|---|---|
| **Ysgol Bryn Clwyd** | **Tachwedd 2010** | **Merfyn Douglas Jones** |
| *Mae Ysgol Bryn Clwyd yn Ysgol Gynradd Sirol fach sydd wedi'i lleol yn Llandyrnog. Mae 26 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 4 ohonynt yn mynychu'r feithrinfa yn rhan amser. Mae gan tua 23% o ddisgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae plant ag ystod lawn o allu yn cael eu derbyn, ond yn gyffredinol mae'r cyrhaeddiad wrth eu derbyn islaw'r cyfartaledd cyffredinol. Mae gan tua 42% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys 2 ddisgybl gyda datganiadau anghenion addysgol arbennig. Cymraeg yw iaith y cartref gyda 3 o ddisgyblion. Mae'r Pennaeth yn rhannu ei hamser rhwng Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor, dechreuodd y peilot Pennaeth ar y Cyd ym mis Medi 2010. Mae hwn yn fodel gan y sir ar gyfer moderneiddio addysg yn Sir Ddinbych.* | | |
| **Ysgol Uwchradd Prestatyn** | **Rhagfyr 2010** | **Ray Owen HMI** |
| *Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn ysgol gyfun gymysg i blant 11-18 oed. Ar hyn o bryd mae 1769 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 339 yn y chweched dosbarth. Mae gan tua 16% o ddisgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae 10% o'r disgyblion yn byw o fewn yr 20% o rannau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r holl ddisgyblion mwy neu lai yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae 28 o ddisgyblion yn derbyn cefnogaeth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd mae 18% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, gyda 1.5% â datganiadau anghenion addysgol arbennig. Mae gwelliannau wedi bod yn ddiweddar yn yr adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac mae canolfan ddysgu ôl 16 oed newydd wedi'i hadeiladu.* | | |
| **Ysgol Melyd** | **Chwefror 2011** | **Goronwy Morris** |
| *Mae Ysgol Melyd wedi'i lleoli ym mhentref Meliden, ger Prestatyn. Mae'r dalgylch yn cael ei hystyried yn ardal ddifreintiedig ac mae lefelau uchel o ddiweithdra. Mae'r holl ddisgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Ar hyn o bryd mae 147 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 15 yn mynychu'r feithrinfa'n rhan amser. Mae gan tua 36% o ddisgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae 60 o ddisgyblion wedi'u hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys pump sydd â datganiad anghenion addysgol ychwanegol. Mae'r Ddarpariaeth Adnoddau iaith wedi'i lleoli yn yr ysgol ac mae hyn yn darparu ar gyfer anghenion plant yng Nghyfnod Allweddol 1 gydag anhwylderau lleferydd a/neu iaith difrifol, penodol. Mae'r plant yn integreiddio gyda gweddill yr ysgol ar gyfer amryw weithgareddau'r ysgol yn ddyddiol.* | | |

## SYLWADAU CADARNHAOL:

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Canlyniadau:

### Lles:

- Mae datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. *(Ysgol Bryn Clwyd)*
- Mae sgiliau cymdeithasol a bywyd llawer o'r disgyblion yn dda. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*
- Mae disgyblion yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau trwy'r pwyllgorau Masnach Deg ac Eco Ysgolion. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Profiadau dysgu:**

- Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys addysg grefyddol. *(Ysgol Bryn Clwyd)*
- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion hanesyddol a diwylliannol yr ardal leol a Chymru yn cael eu datblygu'n effeithiol. *(Ysgol Bryn Clwyd)*
- Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus gan yr holl athrawon. *(Ysgol Bryn Clwyd)*
- Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys dyddiau thema effeithiol a chysylltiadau gyda chymuned ryngwladol, ddifreintiedig. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*

**Gofal, cefnogaeth ac arweiniad:**

- Mae'r ysgol yn rhoi cyfrif da o'r 'Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol' ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. *(Ysgol Bryn Clwyd)*
- Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol sydd wedi'i chynllunio'n dda yn annog disgyblion yn effeithiol i wneud dewisiadau iach, ac mae hyn yn cael ei gefnogi yn ddefnyddiol gan yr adrannau technoleg bwyd, addysg grefyddol ac addysg gorfforol. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*
- Mae disgyblion yn dysgu'n effeithiol ynglŷn ag agweddau ar ddatblygiad ysbrydol o fewn addysg grefyddol, 'agor eu meddyliau' a gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Mae rhaglen wedi'i strwythuro'n dda o wasanaethau ysgol a chyfnodau cofrestru er mwyn annog disgyblion i ystyried ffydd o bob math. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*
- Mae'r ystod helaeth ac amrywiol o brofiadau dysgu a ddarperir, gan gynnwys ymweliadau disgyblion ac ymwelwyr â'r ysgol, yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliant byd-eang y disgyblion. *(Ysgol Melyd)*
- Mae rhaglen addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n bositif iawn at iechyd a lles disgyblion. *(Ysgol Melyd)*

**Yr amgylchedd dysgu:**

- Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar sy'n hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion yn llwyddiannus iawn, gan

gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae staff yn annog disgyblion yn llwyddiannus i herio ystrydebau a dathlu gwahaniaethau. *(Ysgol Melyd)*

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth:**

**Yr amgylchedd dysgu:**

- Trwy gymhwyso polisïau perthnasol yn gyson, mae'r ysgol yn hyrwyddo pob agwedd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn helpu agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at berthnasau gydag eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos gynhwysol yn llwyddiannus. *(Ysgol Uwchradd Prestatyn)*

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol**
**(CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 13 Mehefin 2011 |
| Eitem Agenda: | **6** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir i'r Adroddiad:*

Adborth ar lafar ar 'Ddathlu Dydd Addysg Grefyddol' a gynhaliwyd yng Nghadeirlan Llanelwy

*Diben yr Adroddiad:*

Adolygu llwyddiant y diwrnod 'Dathlu Dydd Addysg Grefyddol' a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2011

*Argymhellion:*

- Derbyn y wybodaeth

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

<table>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>13 Mehefin 2011</td></tr>
<tr><td>Eitem Agenda:</td><td>7</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir i'r Adroddiad:</u><br>Datblygu Fframwaith a fydd yn cynnwys Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Diben yr Adroddiad:</u><br>Hysbysu aelodau o waith y Gweithgor Cyfnod Sylfaen</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br>▪ Derbyn yr adroddiad llafar</td></tr>
</table>

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 13 Mehefin 2011 |
| Eitem Agenda: | **8** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir i'r Adroddiad:*

Mae CYSAG yn parhau yn aelod o Gymdeithas CYSAG Cymru, ac mae'n derbyn adroddiadau ar gyfarfodydd gan aelodau sy'n mynychu, copïau o gofnodion cyfarfodydd ac unrhyw adroddiadau eraill gan y Gymdeithas.

*Diben yr Adroddiad:*

Hysbysu aelodau o ffocws a phrif ganlyniadau'r cyfarfod blaenorol.

*Argymhellion:*

- Derbyn y cyflwyniadau llafar.
- Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf.